Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 12. Rhif 3.] MAWRTH, 1912. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Dewi Sant.

Y Beibl: yr hyn yw a'r hyn nad yw.
Parch. Joseph Wood.

Bwdiaeth.
Parch. J. Park Davies, B.A., B.D.

Ymson y Myfyriwr.

Rhaglen Cymanfa Gerddorol Ceredigion.

Marwnad yr diweddar Barch.
Thomas Thomas, Y.H., Green
Park, Llandyssul.
Cledlyn.

Priodas. Marwgofion.

Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

GELLIR CAEL YCHYDIG

GYFROLAU O'R YMOFYNYDD

o'r Swyddfa er eu rhwymo am y blynyddau canlynol :—
1901, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11.

Pris 2/- y Gyfrol yn rhad drwy y Post.

Anfoner i SWYDDFA YR YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith: fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad.

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y DWSIN YN UNIG—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

—— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. ——

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1912. [CYF. XII. RHIF 3.

DEWI SANT.

GYDA'R Rhifyn presenol credwn nad annyddorol gan rai o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD fydd cael gair am Dewi, nawdd sant Cymru. Er mai ychydig o fanylion personol diamheuol sydd ar glawr, am dano, y mae'r ffaith fod ei enw yn llanw lle mor amlwg a pheraroglus yn hanes ein gwlad, yn awgrym o fawredd ei ddylanwad ac o ragoroldeb ei gymeriad ardderchog. Fel yn mherthynas i eraill o enwogion y chweched ganrif y mae ei edmygwyr wedi cysylltu cymaint o chwedleuon disail â'i enw fel y mae rhai wedi dyfod i'r casgliad, brysiog dybiwn, na fu erioed y fath ddyn—nad yw ei hanes i gyd ond ffug. Rhaid fod rhyw sylwedd tu cefn i'r cysgod.

Yr ydym yn ddyledus i Rygyfarch, mab Sulien, Esgob Ty Ddewi, ac i Gerallt Gymro, am yr hyn a wyddom yn nghylch Dewi, y naill yn ysgrifenu tua 1090 O.C., a'r llall tua 1200. Yr oedd hyny fwy na phump canrif ar ol marw gwrthrych eu bywgraffiadau, amser ddigon i gyfrif am y chwedleuon rhyfedd adroddir am dano.

Tebyg fod wmbredd o ddefnyddiau bywgraffiadol yn nirgelgelloedd yr Abatty; ond wrth wneuthur eu detholiad o blith y rhai hyny, cadwai'r bywgraffwyr mewn golwg yn benaf yr hyn a ystyrient a fyddai er dyddordeb a lles eu pobl, ac i'r perwyl hyny amcanent nid yn gymaint at hanesiaeth lythyrenol gywir ag at un foeswersol, un a fyddai yn adeiladu mewn rhinwedd a moes.

Y chweched ganrif oedd canrif arbenig y seintiau. Dyna'r pryd y blodeuai Dewi, Padarn, Teilo, Catwg, Illtyd, Cybi, ac eraill, y rhai a roddasant fywyd newydd i grefydd yn Nghymru. Sefydlasant fonachtai ac ysgolion rhagorol ar hyd ac ar draws y wlad, ac enillodd yr ysgolion hyny gymaint o enwogrwydd fel y cyrchai lluoedd o bobl ieuainc iddynt hyd y nod o'r cyfandir i dderbyn eu haddysg.

Fe anwyd Dewi, medd hanes, mewn lle a adwaenir heddyw fel Ty Ddewi. Dywedir ei fod yn hanu o linach freninol ac mai enw ei dad oedd Sanctus, neu Xanthus, neu Sandde (ffurf ddiweddar ar yr enw) brenin Ceredigion, ab Cedig, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig. Enw ei fam oedd Nonnita (neu Non ar lafar gwlad) santes enwog a merch i Ynyr o Gaer Gawch yn Mynyw. Y mae'r eglwysi canlynol wedi eu cysegru i Non:—Llan-uwch-aeron, Llan-non yn Ngheredig-

ion, Llan-non yn Sir Gaerfyrddin, St. Non yn Mhenfro, ac eraill yn Nghernyw, yn Nyfnaint ac yn Llydaw. Dydd ei gwyl yw Mawrth 3edd. Gelwir hi yn Non Fendigaid.

Dywedir i Dewi dreulio blynyddoedd boreu ei oes yn Hen Fynyw, ger Aberayron, lle y bu dan addysg gydag un Gwystilian, esgob a chefnder iddo o ochr ei dad. Aeth ar ol hyny, pan oedd eisoes wedi derbyn urddau offeiriad, i'r ysgol at Paulinus (Paul Hen) un o ysgolheigion penaf ei oes, lle y treuliodd amryw flynyddau. Gyda'i alluoedd meddyliol dysglaer, a'i wanc anniwall am wybodaeth, a'i gyfleusderau ardderchog hyn, gallwn yn rhwydd gasglu fod Dewi yntau yn ysgolhaig gwych. Eto, fel dynion mawr yn gyffredin, dyn gwylaidd oedd. Nid oedd yn hoffi cyhoeddusrwydd, ac nid oedd dim yn debyg i ymwthio yn ei natur. Yn yr hanes am Senedd Brefi (tua 520 O.C.) pan oedd yr heresi Morganaidd eto wedi codi ei ben yn fygythiol, cawn i gyfarfod mawr gael ei alw ac i 118 o esgobion ddyfod yn nghyd i gymeryd y mater dan ystyriaeth. Daeth yno dorf aruthrol o bobl at eu gilydd, ac fe wnaeth rhai o'r frawdoliaeth esgobol ymgais i gyhoeddi'r "wir ffydd" yn eu plith, ond ni fedrai'r un o honynt wneud ei lais yn glywadwy, ac o herwydd hyny fe fethwyd myned yn mlaen. Wedi hir ymddiddan, awgrymodd Daniel a Dyfrig iddynt, y byddai'n ddoeth anfon am y "Saint o Fynyw."* Cafwyd llawer o drafferth i ddarbwyllo Dewi i fyned yn ol gyda nhwy, ond wedi iddo gyrhaedd pen y daith a deall y sefyllfa, profodd ei hunan yn feistr ar unwaith. Cododd y tir dan ei draed yn fryncyn† bychan ac yn bwlpud cyfleus iddo anerch y dyrfa, ac y mae ei lais, yr hwn sydd glir fel sain udgorn, yn cyrhaedd hyd y pen pellaf. Y mae felly yn cyflawni gorchest oedd eraill wedi methu ei wneud, ac yn enill iddo ei hun enw a chlod mawr.

Nid oes achos i ni ameu na ddarfu i Dewi, drwy ei hyawdledd anorchfygol, ei resymau cryfion, a'i wybodaeth o'r Ysgrythyrau orchfygu pleidwyr Morganiaeth ac fe allai eu distewi ; ond rhaid i ni gyffesu yr ymddengys rhai o fanylion yr hanes i ni yn anghredadwy ac yn fwy pwrpasol i oes Rhygyfarch a Gerallt nag i'n hoes ni.

Fel gwobrwy am ei orchestwaith dywedir i Dyfrig roddi i fyny ei esgobaeth ac i Dewi ei throsglwyddo o Gaerlleon i Fynyw yn Mhenfro. Ymneillduodd Dyfrig i ynys Enlli, lle y bu farw 522.

Erys y llinellau canlynol ar lafar gwlad y gymydogaeth hyd heddyw, fel math o adsain o'r amgylchiad mwyaf pwysig a ddigwyddodd yno erioed :—

Pan oedd Saint Senedd Brefi,
Drwy arch y Proffwydi,
Ar ol gwiw bregeth Dewi,
Yn myned i ynys Enlli.—*Catwg Ddoeth.*

---

* O holl seintiau Cymru, Dewi oedd yr unig un ganoneiddiwyd gan Eglwys Rufain. Yr oedd hyn tua 1120. Yn yr Eglwys Geltaidd, gelwid y mynachod yn "wir seintiau Duw."

† Ar y bryncyn hwn y saif Eglwys Llanddewi Brefi heddyw.

Adsain o wrhydri arall sy'n cario esboniad hynod yw y llinellau hyn:

Llanddewi Frefi fraith
Lle brefodd yr ych naw gwaith
Nes hollti Craig y Foelallt.

Rhoddwn ychydig ddyfyniadau i ddynodi barn oesoedd diweddarach am Dewi a'i waith. Desgrifia Gerallt Gymro ef fel "drych a phatrwm i bawb, yn cyfranu addysg drwy air a thrwy esiampl, yn rhagori yn ei bregethau a mwy fyth yn ei weithredoedd, yn llusern dysg i bawb, yn arweinydd i'r crefyddol, yn fywyd i'r tlodion, yn borth i'r amddifaid, yn amddiffyn i'r gweddwon, yn gynllun (model) i athrawon, yn bob peth i bawb, fel, os gallai, yn rhyw fodd achub pawb i Dduw.

Yr oedd caritor y fonachaeth, fel y ffynai yn Nhy Ddewi, yn llym a chaled i'r eithaf. Gelwid yr Abad eu hunan, sef Dewi, yn Dewi Ddyfrwr—David, the water Drinker. Wrth hyn y deallwn ei fod yn llwyr ymwrthodwr oddiwrth bob math o ddiodydd meddwol. Yr oedd y gymdeithas grefyddol, i'r hon oedd efe yn ben, yn treulio eu hamser fel y canlyn:—Codent y bore ar ganiad y ceiliog, a pharhaent mewn gweddiau a myfyrdodau nes oedd hi yn ddydd. Yna wedi cydgyfarfod ac addoli Duw yn gyhoeddus, ai pob un allan at ei orchwyl. Wedi treulio'r amser penodedig wrth y gorchwyl, dychwelent i'r athrofa a threulient weddill y dydd yn gweddio, yn darllen, ac ysgrifenu. Yn y prydnawn cyfarfyddent i addoli Duw, a pharhaent yn yr addoliad hyd dywyll nos, yna swperent gyda'u gilydd ar fara a llysiau. Ar ol swperu, treulient dair awr mewn myfyrdod a gweddi; wedi hyny aent i orphwys hyd y bore.

Yn y darlun a rydd Rygyfarch o'r frawdoliaeth, fe ddywedir y gellid yn gyffredin weled monachod wedi eu ieuo wrth yr aradr fel ychain; ac eraill yn ceibo ac yn palu'r tir mewn distawrwydd crefyddol; ac eraill yn cario llifau i dori coed. Ni hawliai neb ddim fel ei eiddo ei hunan, ddim hyd y nod y crwyn a wisgent am danynt. Yr oedd pob peth yn gyffredin yn eu plith. Nid oedd cenad iddynt fwyta cig nag i yfed unrhyw wlybwr ond dwfr. Nid oeddynt i ddefnyddio ceffylau nac unrhyw fath o gerbydau. Bwytaent eu bara wrth fesur. Gwaherddid defnyddio ychain fel y gallai'r brodyr brofi dilysrwydd eu zel drwy dynu yr aradr eu hunain.

Aeth poblogrwydd yr eglwys yn Mynyw (hyny yw Ty Ddewi), mor fawr fel y deuai'r bobl yno o bob parth, o Gymru, Lloegr, a rhanau o'r Cyfandir. Y mae genym hanes i dri o frenhinoedd Lloegr fyned yno ar bererindod, sef Gwilym y Goresgynydd, Harri'r Ail, ac Edward I. a'i wraig. Cyfrifid fod cymaint o haeddiant yn y weithred o fyned i ymweled a Thy Ddewi ddwy waith a phe'r elid i Rufain unwaith.* Tybir i Dewi farw ar y cyntaf o Fawrth tua 588 O.C.

Colofn Dewi Sant.

Y golofn ardderchog hon, yr hon a adnabyddir wrth yr enw "Twr y Dderi," a sylfaenwyd ar ddydd Gwyl Dewi Sant 1834, ar fryn uchel

*Roma semel quantum, bis dat Minervia tantum.

gyferbyn a phalas Derry Ormond, gerllaw Llanbedr Pont Stephan. Dodwyd y gareg sylfaen yn ei lle gan y Pensaer, Mr. D. Morgan, Brynmaen, a gorphenwyd y seremoni gan y Deon Llywelyn o Goleg Dewi Sant drwy daro y gareg dair gwaith. Gorphenwyd y golofn Medi 7, 1836, ac y mae yn 152 troedfedd o uchder dan yr oriel.

T.C.U.

Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW.

Gan y Parch. Joseph Wood.

X.

Dadblygiad yn y Beibl—Moesoldeb.

PAN gafodd y syniad am ddadblygiad gyntaf afael ar y byd, credid ei fod yn anwybyddu, os nad yn gwadu gweithrediadau Duw yn y greadigaeth. Os na ddaeth y ceffyl perffaith a chyfan i fodolaeth wrth orchymyn ewyllys Hollalluog, yna dywedid na wnaeth yr Hollalluog y ceffyl o gwbl. Os y daeth dyn i fyny o raddau is o fodolaeth anifeilaidd trwy dyfiant graddol cenhedlaeth ar ol cenhedlaeth, yna nis gallai fod yn wir fod Duw wedi creu dyn ar ei lun a'i ddelw ei hun. Nis gallai duwinyddion iawnffyddol amgyffred fod Duw wedi creu'r ceffyl o gwbl, os na chreodd ef mewn rhyw ffordd arbenig; nac ychwaith mai Efe oedd Crëwr dyn, os na chenedlwyd ef ar unwaith. Dywedent y gwnai'r fath ddamcaniaeth am *ffordd* y cread i ffwrdd a'r Creawdwr. Ond a ydyw yn llai rhyfedd ac yn llai teilwng o ddoethineb Duw iddo greu yn araf ac yn raddol yn hytrach nag yn sydyn ac ar unwaith? Ni raid i farn dyn yn nghylch *sut* y crewyd y byd a'r hyn oll sydd ynddo gyfyngu mewn unrhyw fodd ar ei farn yn nghylch *pwy* a'u creodd. A ddylai Duw ymddangos i ni yn llai neu yn fwy gwirioneddol a mawreddog, am ei fod yn gweithio trwy gynllun dadblygiad, sydd mewn cydgord a'n holl orchwylion, yn hytrach na thrwy gynllun arall nad oes genym yn ein profiad dynol ddim yn cyfateb iddo?

Felly mae pobl wedi ei theimlo yn galed i gredu fod Duw wedi bod yn athraw i ddyn, os na roddodd iddo y grefydd berffaith a'r moesoldeb perffaith ar y dechreu. Arswydant pan glywant mai amgyffred anmherffaith iawn am Dduw sydd genym yn Mhum Llyfr Moses a delfryd foesol anmherffaith iawn. Pan ddywed Mr. Matthew Arnold wrthym fod gyda ni yn yr Hen Destament Dduw ysprydol, grefydd ysprydol a moesoldeb aruchel yn graddol ddangos eu hunain ar raddfa eang ac yn dod i fodolaeth yn araf ac nid wedi eu gwneud yn barod ac o fesurau penodol, gwaedda llawer allan "Atheist"! Ond pa le mae'r atheistiaeth? A ydyw Duw yn llai gwirioneddol a

rhyfeddol, am ei fod yn dysgu dynion yn raddol ac fel y maent yn alluog i'w dderbyn, yn hytrach nag yn fflachio llawn oleuni y canoldddydd arnynt ar unwaith? A ddywedwn ni yn ein hanwybodaeth na chredwn fod Duw wedi dysgu dynion o gwbl, os na ddysgodd hwynt trwy ryw ffordd neillduol? Gadewch i ni fod ar yr un pryd yn fwy gostyngedig ac yn fwy gwyddorol. Gadewch i ni astudio'r ffeithiau cyn llunio ein damcaniaethau yn nghylch ei ffyrdd o weithredu.

Pan yr astudiwn y Beibl, ynte, fel yr astudiwn natur, nid er ceisio ei gymodi a'n syniadau rhagdybiedig ni, ond yn unig er cael allan y ffeithiau ac yna gadael i'r damcaniaethau dyfu allan o'r ffeithiau, pan y gwnawn hyn dysgwn fod addysg foesol dyn yn unol a ffyrdd Duw o weithredu yn mhob cyfeiriad arall. Nid ar y dechreu ond ar y diwedd y daw'r ffurf berffaith, y moesoldeb perffaith. Nid un safon foesol a dim ond un sydd yn y Beibl, ond y mae llawer safon. Nid yw moesoldeb Jacob yn gydradd a moesoldeb Moses, ac y mae moesoldeb Moses yn mhell ar ol eiddo Esaiah. Nid oes gan Dafydd y ddelfryd uchel hono am ymarweddiad welwn yn Hezekiah, ac nid yw Hezekiah i'w gymharu a Paul. Ceir tyfiant drwyddo ac y mae'r ffordd o'r Deg Gorchymyn i Wynfydau'r Iesu yn anfesurol. Gogoniant yr hanes Beiblaiddd yw hyn—nid fod Genesis yn dywysydd moesol mor ddefnyddiol a'r pedair Efengyl, ond fod yna gynydd parhaus. Mae'r gorchymynion ar y dechreu yn wallus, y moesoldeb yn anmherffaith, ond yn meddyliau arwyr dilynol hanes Iddewig y mae yna syniad y gellir cyrhaedd at rywbeth gwell. Nodir ei holl eneidiau godidog gan hyn—eu bod yn edrych yn mlaen, eu bod yn anfoddlon ar bethau fel ag y maent, eu bod yn gweled, fel mewn breuddwyd, sefyllfa gymdeithasol decach a moesoldeb mwy dyrchafedig yn eu tynu yn mlaen.

Dyma, fel y credaf, yw gwaith ysprydoliaeth bob amser; nid fod y dyn ysprydoledig yn anffaeledig, neu y gwêl y gwirionedd moesol cyflawn a pherffaith, ond yr esgyn mewn moesoldeb ychydig yn uwch na *level* ei amser ac y canfydda, yn gynt na'i gyd-ddynion, y cam nesaf mewn moesoldeb. Yn nghrefydd a moesoldeb yr Iddewon yr oedd yna rywbeth uwchlaw llythyren y gyfraith; yr oedd yna hefyd egwyddor cynydd yn y gyfundrefn; yspryd mewnol a symudiad; cyffroad dueddai yn arbenig i un cyfeiriad. Edrychai yr oruchwyliaeth allan o honi ei hun, edrychai yn mlaen; ac yr oedd y prophwydi bob amser yn paentio darluniau disglaer o amser gwell a mwy ardderchog oedd i ddyfod. Yr oedd cred mewn gwell rheol bywyd ar y ddaear yn brophwydoliaeth barhaus y grefydd Iddewig; ni pherthynai fel rhodd arbenig neu unigol i bersonau neillduol, ond cartrefai fel yspryd arweiniol yn y genedl, yn ei hysprydoli a delfryd wnai i'r cyflwr presenol o hyd ymddangos yn fach—yr oedd fel rhyw ddaioni yn y pellder tuag at yr hwn y teithiai. Pan y pechai yr Iddew, gwyddai ei fod wedi pechu, a phan yr ufuddhai i'r gyfraith gwyddai nad oedd eto yn berffaith. Codai ei olygon uwchlaw'r presenol ac edrychai ar ryw orwel pellenig oleuid gan ogoniant dirgelaidd a'r hwn dywynai gyda phrydferthwch a pherffeithrwydd

moesol, pan na chlywid mwy am drais a gormes yn y tir a phan y byddai chwantau a nwydau wedi eu trechu i'r fath raddau fel y byddai i'r llew orwedd i lawr gyda'r oen.

Felly, tra y gwnai yspryd Dwyfol ac anweledig crefydd ddefnydd o safon foesol anmherffaith—yr unig un i'r hon yr oedd gwareiddiad y pryd hwnw yn barod—yr oedd yn raddol yn codi dynion i fyny i safon uwch; a thra y cyfaddasai Duw ei hun, fel pe tae, i blentyndod dyn ac i syniad gwallus am dda a drwg, yr oedd ar yr un pryd yn ei ddilëu ac yn parotoi'r ffordd i rywbeth gwell.

Yn awr, pan yn barnu gwahanol safonau moesoldeb y Beibl, rhaid i ni gofio mai perthynasol yw yr holl ddyledswyddau benodir, y tafleni gorchymynion a'r rheolau buchedd. Nid ydynt yr un o honynt y moesoldeb diammodol a pherffaith; mae'r pethau orchymynir i ni wneyd neu i beidio gwneyd yn iawn neu yn aniawn o dan yr amgylchiadau; gallant fod yn iawn o dan un gyfres o amgylchiadau ac yn aniawn o dan gyfres arall. Mae'n wir fod yna egwyddorion moesoldeb tragwyddol ydynt yr un i bob oes; ond amrywia eu esboniad a thymerir y rheolau trwy y rhai y cant eu cario allan o adeg i adeg yn unol a chyflyrau cyfnewidiedig cymdeithasol. Perthynasol yw dyledswydd i wybodaeth a gallu. Nis gellir beio'r llwythau anwaraidd hyny yn Nghanolbarth Affrig, trwy diriogaethau y rhai y gwnaeth Mr. Stanley daith mor beryglus, nis gellir eu beio am na charant eu gelynion nac am eu bod yn hytrach yn eu cashau hyd farwolaeth. Nid ydynt yn gwybod gwell. Maent i'w tosturio yn hytrach nag i'w beio. Maent yn yr un cyflwr a'r Iddewon pan y dywedodd Moses wrthynt, "*Car dy gymydog a chasha dy elyn*"* Nid oedd gan yr Iddewon yr un wybodaeth na'r amgyffred lleiaf ei bod yn ddyledswydd arnynt i garu pawb dynion; ac nid ydynt i'w beio am gashau eu gelynion, oherwydd na allent yn y cyflwr o gyfnewidiad yn yr hwn yr oeddynt ar y pryd, wybod na meddwl am un arall. Yr oedd yn anmhosibl meddwl am faddeu gelynion yn y dyddiau hyny ac felly nid oedd yn ddyledswydd i wneyd hyny. Yn raddol y tyfodd y meddwl.

Mae dyledswydd, ynte, yn berthynasol i addysg, mae hefyd yn berthynasol i allu. Nid yw yn un pechod i ddyn beidio gwneyd yr hyn na all wneyd. "*Dygwch feichiau eich gilydd*"† yw'r gorchymyn, ond meddyliwch fod dyn yn gloff a digymorth ac yn dioddef bob dydd oddiwrth afiechyd poenus, sut y gall ef gyflawni y ddyledswydd o ddwyn beichiau ereill. Mae dyledswydd hefyd yn berthynasol i amgylchiadau a chyfleusderau. "*Ac od oes neb*" meddai'r Apostol "*heb ddarbod dros.....ei deulu, efe a wadodd y ffydd, a gwaeth yw na'r diffydd,*"‡ ac fel rheol nid oes yr un ddyledswydd y dylai dyn ei chyflawni o flaen hon. Ond pan yr aeth John Rogers i'r ystangc er mwyn cydwybod, gadawodd ei deulu heb un ddarpariaeth ar eu cyfer. A oedd yn ddyledswydd arno ddarparu mor drwyadl dros ei deulu

---

*Matthew v. 43 †Galatiaid vi. 2. ‡1 Timotheus v. 8.

fel y dylai wadu ei gydwybod er mwyn cael byw i fod yn gynhaliaeth iddynt? Rhaid i ni gofio mai perthynasol yw Dyledswydd pan y barnwn foesoldeb yr Hen Destament.

Ni raid i ni gael ein arswydo na'n synu pan y cawn ddyledswyddau yn cael eu gorchymyn y byddai yn bechadurus i'w cyflawni yn awr. "*Na chaffed hudoles fyw.*"* Y gorchymyn i labyddio i farwolaeth a cherrig blant afreolus ac anufudd, ar gyhuddiad eu rhieni yn unig —byddai'r fath bethau yn greulon, yn erchyll ac yn anmhosibl yn ein dyddiau ni. Yn Deuteronomium, XIV. 21, darllenwn—"*Na fwyttewch ddim a fo marw ei hun; dod ef i'r dieithr fyddo yn dy byrth, a bwyttaed ef; neu gwerth ef i'r dieithr.*" Pa fodd y teimla eich cydwybod wrth y ffordd hon o gael gwared ar gig drwg? Dengys gorchymynion fel rhai'n foesoldeb anmherffaith iawn.

Gadewch i ni gymeryd caethwasiaeth. Cymhellir ef yn y Pum Llyfr, gwneir deddfau i'w reoli a chydnabyddir ef fel yn foesol, ac yn y dyddiau hyny yr oedd yn foesol. Yr oedd yn welliant amlwg mewn dyngarwch ar yr hen arferiad; yr oedd yn gymharol well na'r hyn oedd o'i flaen. Tyfodd caethwasiaeth allan o'r cwestiwn—beth ydym i wneyd a'r carcharorion gymerir mewn rhyfel? Ar y cyntaf yr arferiad oedd eu llofruddio yn ddiwahaniaeth: rhyfel i lwyr ddifetha oedd pob rhyfel. Ond bob yn ychydig cymerodd meddwl mwy dyngarol feddiant o ddynion; daethpwyd i edrych ar lofruddio carcharorion digymhorth yn ddiwahaniaeth fel yma yn beth rhy arswydus, a gwnawd hwy yn gaethweision yn lle hyny. Yr oedd yn gam yn mlaen mewn moesoldeb ac yn enill i wareiddiad.

Mae yr un peth yn wir am amlwreiciaeth, er mor anioddefol y gall y meddylddrych fod i ni. Yr oedd ar y pryd yn enill i wareiddiad ac yn ddyrchafiad mewn moesoldeb. Os bydd i chwi olrhain yn fanwl dyfiant bywyd cymdeithasol, chwi gewch fod yna raddau îs nag amlwreiciaeth. Bu yna amser pan yr ymdriniai ac y cymdeithasai bodau dynol yn ddiwahaniaeth a'u gilydd, a phan nad oedd yna yr un rhwymyn i gylymu unrhyw ddynes neillduol wrth unrhyw ddyn neillduol. Ond saif amlwreiciaeth am radd uwch o foesoldeb na hyn; mae yn gydnabyddiaeth fod yna rwymyn o ryw fath rhwng dyn a dynes ddylai pob un o honynt barchu a diogelu, ac y mae yn mhellach yn fath newydd o gysylltiad teuluaidd.

A ydyw Jacob, ynte, i'w feio am ei fod yn amlwreiciwr? Dim o gwbl. Nid oedd y fath syniad am y teulu ac am y cysylltiadau rhwng y rhywiau yn aniawn iddo ef, ac nid yw ond ffolineb i ni ddisgwyl iddo fod o flaen ei amser yn ei farn am y fath gwestiwn. Ond byddai'r hyn nad oedd yn aniawn yn y Patriarchiaid yn aniawn tuhwnt i adroddiad ynom ni. Nid yw'r moesoldeb sydd er daioni i'r dyn du yn Nghanolbarth Affrig, nid yw er lles y dyn gwareiddiedig.

---

*Exodus, xxii. 18.

BWDIAETH.

Ar gwestiwn mor helaeth a dyrys nis gellir traethu mewn un erthygl ond y nesaf peth i ddim. Yr oll ellir wneud yw, rhoddi amlinelliad byr o'r gyfundrefn, a chyffwrdd yn ysgafn ar y prif ffeithiau yn hanes bywyd ei sylfaenydd. Nis gall fod amheuaeth na ddylid edrych ar y

Bwda fel un o brif arweinwyr Crefyddol y Byd.

Gosodir ei enw ochr yn ochr wrth enwau Zoroaster, Confucius, Moses, Iesu a Mohamed. Ac yn wir pe bae ni i farnu eu gwerth oddiwrth nifer eu canlynwyr y mae yn bosibl y dylid gosod y Bwda ar ben y rhestr. A chymeryd barn ysgrifenwyr ar y testun yn gyffredinol, ymddengys fod cyfanswm y Bwdiaid yn y byd heddyw rywle yn nghynteddau y pedwar can miliwn. Pa un a yw hyn yn fwy neu lai na nifer y Cristionogion sydd gwestiwn ag y mae llawer o ddadleu yn ei gylch. Nid yw hyn fodd bynag o bwys mawr gan ein bod yn dechreu dysgu bellach fod gwerth gwir grefydd yn gynwysedig mewn rhyw rinwedd heblaw maintioli a mawredd allanol. Ystyriaeth sydd fwy pwysig i ni gadw mewn cof wrth gymharu y ddwy gyfundrefn yw y ffaith fod Bwdiaeth wedi ei halltudio o'r India er's canrifoedd lawer, bron yn union yr un fath ag y cafodd Cristionogaeth ei halltudio o wlad Palestina. Os am ddyfod i gyffyrddiad â Bwdiaid heddyw rhaid i ni fyned nid i'r India ond i Nepaul, Tibet, Burmah, Ceylon, China a Japan. Nid ydym yn golygu mai Bwdiaeth yw unig grefydd llawer o'r gwledydd hyn, ond ei bod wedi dyfod yn un, o leiaf, o'r prif gyfundrefnau yn yr oll o honynt.

Tebygolrwydd arall y dylid galw sylw ato yw fod gan y Bwdiaid megys ag y mae genym ni eu llyfr cysegredig a adwaenir yn fwyaf arferol wrth yr enw "Tripitakas." Ystyr lythyrenol y gair yw "y tri Basged" a thebyg ei fod wedi ei gymeryd oddiwrth yr arferiad fodolai yn y Dwyrain o gludo nwyddau mewn basgedi. Edrychid ar y Tripitakas felly fel llestr a ddefnyddid i gludo traddodiadau i lawr o oes i oes. Nid yw dechreuad y llyfr yn hollol hysbys i ni eto er fod ychydig o oleuni newydd yn cael ei daflu arno yn barhaus, a mwy o bosibl yn yr oes hon nag mewn un oes flaenorol. Gwyddom eisoes na ddarfu iddo yn fwy na'r Beibl gael ei ysgrifenu gan un law nac mewn un oes. Estyna cyfnod ei gyfansoddiad yn ol dros rai canoedd o flynyddau ac am y rheswm hyny nis gellir disgwyl nad oes ynddo yn ychwanegol at hanes, lawer iawn o'r gwyrthiol a'r damcaniaethol. Ac mae yn ddyddorol i ni sylwi ar y tebygolrwydd tarawiadol sydd rhwng yr elfenau hyn ac elfenau cyffelyb yn y Testament Newydd. Y mae llawer o'r hyn ddywedir am fywyd boreuol yr Iesu yn yr Efengylau wedi ei ddweyd bron yn yr un geiriau yn flaenorol

Am Fywyd Boreuol y Bwda.

Dywedir iddo ddyfod i lawr o'r nefoedd i'r ddaear, ei fod wedi ei eni o forwyn, i'r angylion gyd-orfoleddu ar awr ei ymddangosiad, iddo pan yn ieuanc geisio dysgu ei ddysgawdwyr, megys ag yr adroddir am Iesu yn gwneud yn y Deml yn Jerusalem, iddo gael ei demtio gan y diafol yn yr anialwch, a llawer o bethau eraill nas gellir yn y man hwn yn gymaint a'u henwi. Nid iawn yw awgrymu fel y gwneir gan rai mai efelychiadau ydynt o'r traddodiadau Cristionogol gan eu bod yn llawer boreuach ac yn adnabyddus i'r Bwdiaid yn mhell cyn i'r Iesu gael ei eni. Gwell yw cydnabod ar unwaith mai ymgais yw y naill a'r llall o honynt yn rhanol i

gyfrif am ddylanwad personoliaeth dynion mawr, ac yn rhanol i borthi'r blys sydd yn mhawb o honom am y gwyrthiol a'r goruwchnaturiol. Wrth sylwi yn ormodol ar yr ochr ddamcaniaethol hon, aiff rhai mor bell ag ambeu os y bu y fath bersonau a Iesu a Bwda fyw o gwbl, tra y deil eraill ei bod yn anhawdd, os nad yn anmhosibl, hyd yn oed os y buont fyw i gael gafael am y gwir ffeithiau yn nghanol y fath gronglwyth o chwedlau disail ac ansylweddol. Ymddygiad eithafol arall yw hwn, ac nid yw i'w gefnogi yn fwy na choelgrediniaeth ddiamodol. Pan y cawn dystiolaeth unfrydol efrydwyr fel Dr. Rhys Davids a Dr. J. Estlin Carpenter ac amryw eraill berthynant i'r un dosbarth gallwn gredu heb unrhyw betrusder i'r Bwda fyw a threulio bywyd maith nodweddid gan brydferthwch moesol a defnyddioldeb hunanymwadol. Dywedir iddo gael ei eni tua'r flwyddyn

560 C.C.

yn nyffryn prydferth y Ganges. Mab oedd i un o dywysogion neu swyddogion penaf y wlad. Er pan yn ieuanc yr oedd wedi ymroi gymaint i fyfyrdod nes ymylu bron ar iselder yspryd. Ofnai ei rieni y buasai i hyn ei analluogi i gymeryd rhan briodol yn llywodraeth y werin, a gwnaethant eu goreu i'w arwain yn llwybrau llawenydd a phoblogrwydd. Priododd pan nad oedd ond pedair ar bymtheg mlwydd oed. Cedwid yr hagr a'r anymunol oddiwrtho mor bell ag oedd yn bosibl. Ond rhyw ddiwrnod pan ar orymdaith drwy un o ystrydoedd y dref, darfu iddo ddyfod i gyffyrddiad â hen wr penwyn a chrynedig. Nid oedd wedi gweled y fath beth erioed o'r blaen a gofynodd i gyfaill oedd ganddo a oedd y fath olygfa druenus yn beth cyffredinol neu ynte yn eithriadol. A'r ateb oedd mai hyn oedd diwedd pawb os y byddai iddynt fyw yn ddigon hir. Dro arall daeth i gyffyrddiad â pherson yn dioddef oddiwrth afiechyd. Gofynodd eto bron yr un fath ofyniad a chafodd atebiad cyffelyb. Yn olaf darfu iddo gwrdd ag angladd yn hebrwng gweddillion marwol rhyw gyfaill i'r gladdfa ac ar ol cael ar ddeall mai hyn oedd tynged pawb yn ddieithriad, daeth i'r casgliad mai brau a blin yw bywyd dyn ar y ddaear. Pan yn naw ar hugain mlwydd oed gadawodd ei wraig a'i blentyn, ei gartref a'i holl gyfoeth, er mwyn ceisio cael gafael am waredigaeth oddiwrth boenau a drygau'r byd. Ymunodd yn gyntaf a'r Brahminiaid y rhai gynrychiolent grefydd boblogaidd y dydd. Ni chafodd foddhad yma a chwiliodd am feddyginiaeth nesaf gyda'r meudwywyr (ascetics) y rhai dybient fod iachawdwriaeth yn gynwysedig mewn hunanymwadiad. Treuliodd chwe' mlynedd yma ac ar ol methu unwaith eto ymneillduodd am gyfnod o amser i ddwys fyfyrio wrtho'i hunan yn yr anialwch. Ar ol brwydr galed enillodd o'r diwedd fuddugoliaeth neu fel y dywedai ef

CAFODD OLEUNI.

Y cwestiwn nesaf i'w benderfynu oedd pa un a'i myned allan i'r byd i bregethu fyddai oreu neu ynte cadw ei hun yn hollol ymneillduedig. Ar ol ychydig o ymresymu ag ef ei hun, penderfynodd ei bod yn ddyleddswydd arno i gyfranu i eraill y ddysgeidiaeth oedd wedi dwyn heddwch a gwynfyd iddo'i hunan. Casglodd at eu gilydd nifer o ddysgyblion i ledaenu y newyddion da a bu yn ddiwyd wrth y gwaith o ddysgu am bum mlynedd a deugain ac ar ddydd ei farwolaeth yr oedd wedi cyrhaedd ei bedwar ugain o oedran. Ac yn awr ar ol ychydig o ragymadrodd cawn edrych yn fyr ar y gyfundrefn ddyfeisiwyd gan y Bwda er rhyddhau dynion oddiwrth flinderau y bywyd presenol. Wrth siarad am Hindwaeth mewn erthygl flaenorol cawsom weled mai un o'i phrif athrawiaethau oedd "trawsfudiad" yr enaid. Tybid fod hyn yn cyfrif am ein tynged yma drwy ddweyd mai canlyniad yw o'r cymeriad ffurfiwyd genym mewn

bodolaeth flaenorol. Yr enw roddir i'r cyfatebiad yma rhwng y presenol a'r gorphenol yw "Karma." Yr ydym yn medi yn awr yn union fel y darfu i ni hau o'r blaen. A'r cwestiwn mawr oedd gan ddysgawdwyr yr oes hono i'w benderfynu oedd pa fodd i ryddhau'r enaid oddiwrth y fath olwyn ofnadwy fel na fydd yn angenrheidiol iddo ymgnawdoli yn y stad bresenol byth mwy. Gwynebai'r un anhawsder yn gywir y Bwda a cheisiodd ei benderfynu yn ei ffordd ei hun. Credai yntau hefyd mewn trawsfudiad yr un fath a'r Hindwaid ond gyda hyn o wahaniaeth—mai nid trawsfudiad yr enaid yw yn gymaint a

Thrawsfudiad y Cymeriad.

Ni ystyriai yr enaid yn sylwedd ynddo'i hunan ond edrychai arno fel crynodeb o wahanol briodoleddau—megys mater, teimlad, dychymyg, ewyllys ac ymwybyddiaeth. Nid oedd ganddo fawr i ddweyd chwaith am fodolaeth Duw, er nad ydym i olygu wrth hyn ei fod yn haeru nad yw yn bodoli o gwbl. Ni chymerai ryw lawer o ddyddordeb mewn pynciau uwchanianol. Yr oedd cylch ei swyddogaeth ef yn terfynu gyda'r profiadol a'r ymarferol. Dysgai mai yr oll arosai ar farwolaeth unrhyw berson oedd chwant neu syched a chanlyniadau ei gymeriad. Rhoddai'r chwant yma fodolaeth i fywyd arall drwy ddwyn at eu gilydd y priodoleddau y soniwyd am danynt fel yn ffurfio'r enaid. Y mae bron yr un fath a phe bae canwyll yn diffodd a'r fflam yn cael ei defnyddio i oleuo canwyll arall. Penderfynir cyflwr y bywyd sydd yn canlyn gan y cymeriad etifedda oddiwrth y bywyd sydd newydd derfynu. Yr unig ddiangfa i ddyn felly, medde'r Bwda, yw ceisio diffodd y fflam neu ddileu'r chwant mor drylwyr fel na fyddo yna yr un perygl iddo roddi bodolaeth i unrhyw fywyd arall byth ar ol hyny. Rhaid i'r sawl sydd yn awyddus am iachawdwriaeth, neu yn hytrach waredigaeth, sylweddoli ar y cychwyn bedwar prif gwirionedd. Yn nghyntaf y ffaith o ddyoddefaint. Dyoddefaint yw genedigaeth a dyoddefaint yw marwolaeth ; dyoddefaint yw undeb a'r hyn sydd anymunol, a dyoddefaint eto yw ysgariad oddiwrth y dymunol. Mewn gwirionedd, dyoddefaint yw hanfod bywyd drwyddo i gyd. Ac yn ail, tarddiad dyoddefaint. Gorwedd hyn yn yr awyddfryd sydd ynom am y cyfryw bethau ydynt yn diflanu ac yn dyfod i derfyn. Yn nesaf diddymiad dyoddefaint ; a'r unig ffordd i sicrhau hyn yw drwy ddiddymu y chwant neu'r syched am bleserau darfodedig. Ac yn olaf y llwybr sydd yn arwain at hyn—a elwir y "Ffordd Aryaidd." Tebyg ei bod yn gyfystyr a'r hyn elwir genym ni yn aml yn "Ffordd Euraidd." Y mae iddi gymaint ag wyth o risiau—syniadau iawn, dyheadau iawn, lleferydd iawn, ymddygiad iawn, byw yn iawn, ymdrech iawn, meddylgarwch iawn, a hyfrydwch iawn. Gellid dweyd llawer ar bob un o'r termau hyn, ond ni chaniata gofod yn awr ond eu henwi yn unig. Daw pob un geisia rodio y ffordd hon i gyffyrddiad â deg o lewod neu rwystrau. Y cyntaf yw damcaniaethau anghywir mewn perthynas i'r enaid, ac yna dilynir ef gan amheuon, ymddibyniaeth ar weithredoedd, cnawdolrwydd, drwg-ewyllys, dymuniad am ail-enedigaeth ar y ddaear, dymuniad am ail-enedigaeth yn y nefoedd, balchder, hunangyfiawnder ac anwybodaeth.

Gosoda'r Bwda i lawr hefyd ddeg o orchymynion :—Na ladd, na ladrata, na chyflawna odineb, na ddwed anwiredd, na feddwa, na fwyta ymborth sylweddol yn y prydnawn, na chymer ran mewn dawnsio a dyfyrwch chwareuyddol, na addurna dy hun â harddwisgoedd a pherarogl, na orphwysa ar welyau gloddestgar, ac na dderbyn aur neu arian. Y mae'r pump cyntaf wedi eu hamcanu yn fwyaf neillduol ar gyfer y rhai ydynt yn y byd, a'r gweddill ar gyfer y rhai ydynt wedi ymneillduo oddiwrtho. A pha beth tybed yw terfyn y brwydro a'r hunanymwadu yma i

gyd? Yr enw roddid i'r pendraw gan y Bwda oedd

"NIRVANA."

Gyda golwg ar ystyr y gair ceir fod yna lawer iawn o anghydwelediad. Dywed rhai ei fod yn golygu diddymiad bodolaeth yn gyfangwbl. Dywed eraill—ac yn fwy cywir mi gredaf—nad yw yn golygu ond diddymiad blys neu chwant yn unig. Ar ol cyrhaedd y stad hon ni fydd yna ail-enedigaeth mwyach, ond caiff yr yspryd orphwys mewn gwynfyd a heddwch tragwyddol. Nid hollol anhebyg i hyn gallwn feddwl yw ystyr y geiriau lefarwyd gan Iesu: "Pwy bynag a ewyllysio gadw ei fywyd a'i cyll: a phwy bynag a gollo ei fywyd o'm plegyd i, a'i caiff."

Ni thybiaf am foment fy mod mewn crynodeb mor fyr ac amherffaith wedi rhoddi eglurhad o gyfundrefn ddirgelaidd y Bwda ond hyderaf fy mod wedi dweyd digon i alw sylw at rai o'i phrif athrawiaethau ac anhawsderau. O'n safbwynt ni y mae yna yn ddiameu lawer iawn o rinweddau yn perthyn iddi ond hefyd ar yr un pryd amryw o wendidau. Credwn ei bod yn gorbwyso y drwg mewn bywyd ac yn esgeuluso y da. Y mae'r lleddf yn danbaid iawn ynddi; a dywed rhai wrthym fod hyn i'w briodoli i fesur helaeth i hinsawdd y wlad. Y mae hefyd yn tueddu i niweidio cymdeithas drwy ddysgu ei bod yn hawddach sicrhau gwaredigaeth ar ol i ni dori cysylltiad a'r byd allanol o amgylch i ni. Ac yn olaf y mae yn dibrisio y perthynasau melus ffurfir ar y ddaear ac a ystyrir genym ni

YN FLAENFFRWYTH Y GYMDEITHAS WELL

sydd yn ein haros ar ol myned oddi yma. Dywed y Bwda, os nad ydym yn ei gamddeall, fod y cyfryw deimlad yn un o'r prif rwystrau ar ein ffordd i gyrhaedd gwir iachawdwriaeth. Ond nid ydym yn anghofio ar yr un pryd fod i'r gyfundrefn rinweddau mor uchel a'r unrhyw y gwyddom am danynt. Un o'i phrif amcanion yw gwella cyflwr cymdeithasol y byd. Rhydd le hefyd i reswm a chaniata i bawb berffaith ryddid meddwl. Felly yn naturiol nid oes hanes genym am y Bwdiaid yn cefnogi erledigaeth yn erbyn neb, ac yn hyn o beth mor wahanol ydynt i'r Mahometaniaid, ie, ac i'r Cristionogion hefyd! Gesyd yn mhellach bwyslais neillduol ar gariad a thynerwch tuag at bawb a phob peth. Sonir, mewn chwedl, am y Bwda yn rhoddi aelodau o'i gorph yn ymborth i fwystfilod clwyfedig y maes er mwyn eu galluogi i gyfranu lluniaeth i'w rhai bychain. Dywed wrth y plant am barchu eu rhieni, ac wrth y rhieni am ddiogelu eu plant. Gorchymyna i'w holl ganlynwyr fod yn ddiolchgar, yn gymedrol, yn faddeugar ac yn garedig. Ac yn ddiweddaf ond nid llai pwysig, yn enwedig yn y Dwyrain, gwnaeth y Bwda ddewis

FFORDD HUNANYMWADIAD

i gyrhaedd y nod oedd wedi osod o'i flaen. Yma fel yr awgrymais yn barod y mae yn sefyll ar yr un tir a Iesu o Nazareth. Nid yw y naill na'r llall o honynt yn esgusodi anfoesoldeb yn y mesur lleiaf ond safant yn gadarn ac yn ddiysgog dros burdeb mewn meddwl, gair a gweithred.

J. PARK DAVIES.

Nid yw erlid ddim yn beth mor rhwydd ag y bu. Y mae'n tynu mwy o sylw, yn creu mwy o gydymdeimlad. Pechod y Parch. E. P. Rice, B.A., o Bangalor, oedd ysgrifenu llythyr i'r "Christian Commonwealth." Trwynodd awdurdodau y Feibl Gymdeithas heresi yn y llythyr, a chafodd Mr. Rice ei droi o'r neilldu. Y mae Mr. Rice yn ysgolhaig addfed, ac er ys cryn amser yr oedd ar gais y Gymdeithas yn cyfieithu'r Beibl i iaith y Kanaresiaid. Caled oedd ei droi allan ar ol 38 mlynedd o wasanaeth gwerthfawr i'r cyhoedd.

YMSON Y MYFYRIWR.

Yr ydym, yn ddios, yn byw mewn adeg gyffrous i'r eithaf. O bob cyfeiriad daw swn y brwydrau llafur i'm clustiau. Saif y flwyddyn ddiweddaf allan yn mhlith y blynyddau fel un hynod ar gyfrif yr ymdrech rhwng y meistr a'r gweithiwr trwy'r wlad ac yn mhob cangen bron o fasnach. Pan wyf yn ysgrifenu'r llinellau hyn, y mae'r awyrgylch yn llawn cymylau, arwydd o ystorm agoshaol. Beth ddaw o hyn i gyd y mae yn anhawdd dyweyd. Er y cydymdeimlaf â'r achos wrth wraidd y cyffroadau masnachol hyn,—sef, dyhead y gweithiwr am well cyfleusderau i fyw, eto, amlwg ydyw eu bod yn niweidiol i lwyddiant masnachol y wlad yn gyffredinol. A dyngarwr o'r radd flaenaf fyddai yr hwn a allai ddyfeisio cynllun i'w gochelyd. Swn brwydrau am ddiwygiadau glywir yn y byd gwleidyddol hefyd—brwydrau a gyffroant deimladau chwerw ar un llaw, a theimladau o lawenydd a gobaith ar y llaw arall. Dyna beth sydd yn cydfyned â brwydrau o'r fath hyn yn wastad. Y mae hyn yn wir mewn modd arbenig mewn cysylltiad â phwnc y

Dadgysylltiad a Dadwaddoliad.

Y mae'r cwestiwn hwn, ar ol yn agos i haner canrif o ymdriniaeth, ar fin cael ei benderfynu. O leiaf, dyna'r arwyddion presenol. Ni ddylid, er hyny, bod yn rhy ffyddiog. Medd y ddiareb Saesneg—"*There's many a slip 'twixt cup and lip.*" Nid anmhosibl na wireddir y gosodiad hwn cyn terfyn yr ymgyrch hon. Yr anisgwyliadwy yn fynych a ddigwydd. Ond a chymeryd yn ganiataol fod y mater hwn i gael ei benderfynu yn derfynol yn nghwrs y flwyddyn bresenol, y gofyniad ddaw i'm meddwl yw—

Beth fydd ar ol hyny?

Awgrymwyd y gofyniad hwn i mi, nid gan un o'r areithiau hyawdl draddodir yn ddyddiol yn erbyn a thros dori'r cysylltiad rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, ond yn hytrach gan nodyn byr a ymddangosodd yn ddiweddar yn y *Monthly Treasury*, misolyn y Methodistiaid Saesneg yn Nghymru. Mewn darlith a draddodwyd yn ddiweddar gan y Dr. Cynddylan Jones ar y testyn "Dr. Lewis Edwards," gwasanaethwyd fel llywydd gan ficer y plwyf. Dyma ran o'r nodyn y cyfeiriais ato: "Anturiodd [y ficer] awgrymu y dylem weithio i uno ein cyfundeb [y Methodistiaid] a'r Eglwys Anglicanaidd. Gyda'm holl galon dywedaf, Amen. Paham lai? Pe dadgysylltid yr Eglwys, ni fyddai un rheswm yn erbyn i ni a hwythau i fod yn un. Y mae'r syniad yn ardderchog. Denfyn ias o obaith sanctaidd trwof. Y fath allu fyddai y fath Eglwys. Ai nid Eglwys nerthol yw'r un peth sydd ar Gymru ei heisiau?"

Y Methodistiaid a'r Eglwyswyr wedi uno!

Nid oes dim yn anichonadwy yn y syniad. Gyda'r un rhwystr wedi ei symud, i ba ddyben yr arhosent ar wahan? Ac os y Methodistiaid, paham lai na ddygid y Wesleyaid, y Bedyddwyr, a'r Annibynwyr hefyd i fewn i'r un gorlan? Yna, byddai genym

Un Eglwys Fawr y Cymry.

Y mae'r darlun—y breuddwyd, yn hytrach—yn un dymunol iawn. Ac os mai dim ond y cysylltiad rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth yw'r unig rwystr i hyn, ai nid yw'r ymgais i symud y rhwystr yn ddyledswydd gysegredig? Nid oes un swm o arian a deilynga ei gymharu o ran gwerth i'r sefyllfa ddelfrydol hon.

Beth fyddai'r fantais

o hyn? Dyma ddyfyniad o un o draethodau Froude a awgryma

ateb i'r gofyniad hwn : "Yn yr adeg y soniaf am dani [gryn dipyn o amser cyn y Diwygiad Protestanaidd], llywodraethai'r Eglwys [Gatholig] y wladwriaeth gydag awdurdod cydwybod, ac yr oedd hunanles yn beth a ffieiddid ganddi. Ystyrid yr esgobion a'r offeiriaid yn gyffredin fel gweinidogion uniongyrchol yr Hollalluog ; ac ymddengys eu bod yn teilyngu'r cymeriad hwn. Nid am yr athrawiaethau a ddysgid ganddynt yn unig, nac yn benaf, yr anrhydeddid hwynt. Doethineb, cyfiawnder, hunymwadiad, purdeb, uchelfrydedd : y fath oedd y rhinweddau geid yn offeiriaid yr Eglwys Gatholig chwe' cant o flynyddau yn ol. Galwent eu hunain yn olynwyr yr apostolion. Cyfiawnhaent yr enw hwn trwy sancteiddrwydd eu bywydau. Os oedd dyn yn anfucheddol neu yn feddwyn ; os y dywedai anwiredd, os y tyngai anudon ; os oedd yn segur neu yn afradus ; os yn angharedig i'w wraig neu i'w wasanaeth-ddynion; os oedd plentyn yn anufudd i'w dad, neu'r tad yn greulawn i'w blentyn ; os gwerthai masnachwr nwyddau twyllodrus, neu os defnyddiai bwysau anghywir—yr oedd llygad offeiriad y plwyf yn mhob man, ac yr oedd llys yr Eglwys yn agored i chwilio ac i gospi." Hawdd y gallai Froude lefaru allan—"y fath allu aruthrol y rhaid fod hyn !" Bu'r Eglwys, ie, yr Eglwys Gatholig, unwaith, am ganrifoedd yn ei hanes, yn amddiffynydd y gwan, ac yn ddychryn i'r gorthrymwr; yn allu cryf o blaid pob da, yn allu cryf hefyd yn erbyn pob ffurf o ddrwg. Paham y dyfynais yr ymadroddion uchod ? Er dangos

Y GALL YR HYN A FU UNWAITH FOD ETO.

Beth pe delai'r breuddwyd y cyfeiriais ato ar y dechreu yn ffaith ? Y fath allu bendithiol fyddai gan un Eglwys fawr, unol, gydweithredol, bendithiol—cyhyd ag y parhai yn ffyddlon i'r ddelfryd iawn o Eglwys. Byddai yn amddiffynydd i'r gwan gormesedig, yn elyn i'r cryf gormesol ; yn gefnogydd i bob cyfiawnder, yn ddychryn i bob drygioni. Y mae hyn yn fy arwain i derfynu lle y dechreuais. Yn ngwyneb y fath Eglwys a hon byddai y brwydrau cymdeithasol a llafurol y cwynir o'u plegid heddyw bron yn amhosibl. Oherwydd perai i gyfiawnder gael ei wneud gan nad i bwy yn ddyledus. Ond beth dâl siarad ? Breuddwyd yw hyn i gyd. Ond breuddwyd a delfryd yn ei fynwes ydyw er hyny. Os yw'r ddelfryd yn mhell, mwy o lawer yw ein dyledswydd ni sydd yn y presenol cynhyrfus i ymdaflu i'r ymdrech i'w ddwyn yn nes.

MYFYRIWR.

RHAGLEN CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.

Yn gynar yn y mis diweddaf, daeth Rhaglen y Gymanfa Gerddorol nesaf i'm llaw ; ac yn ol fy arfer, ni chollais amser cyn troi i'w thudalenau, er gweled pa fath wledd oedd y Pwyllgor wedi ddarparu ar ein cyfer eleni. Nid wyf na cherddor na bardd ; er hyny, medraf fwynhau cerddoriaeth a barddoniaeth ; ac y mae genyf fy safon o feirniadu. Heblaw hyn, y mae genyf berffaith hawl i'w beirniadu bydded y feirniadaeth yn gywir neu anghywir. Dyma'r peth cyntaf a wnaf pan ddaw Rhaglen ein Cymanfa i'm llaw—taflaf fy llinyn mesur dros y cwbl—y tonau, yr emynau, y fantolen, diwyg y rhaglen, rhestr y swyddogion, &c. Weithiau mae'm

barn yn ffafriol ; pryd arall yn anffafriol ; pryd arall eto yn bob un o'r ddau. Pwy wel fai arnaf am wneyd hyn. Mae beirniadu yn duedd gynhenid yn y natur ddynol. Mae pawb yn gwneyd hyn, ac nid oes dim allan o le yn yr arferiad ychwaith, cyhyd ag y beirniedir yn yr yspryd iawn. Gwir fod yr Athraw wedi dweyd "Na fernwch" ond dywedodd hefyd "bernwch farn gyfiawn." Ni ddylid collfarnu ; ond pan yn barnu, dylid gwneyd hyny yn ol cyfiawnder, mor bell ag y medrwn wybod beth sydd gyfiawn. Dyna'r yspryd yn yr hwn yr arferaf feirniadu Rhaglen ein Cymanfa Gerddorol. Os y teimlaf duedd i feio'r Pwyllgor am osod tôn neillduol i fewn, er engraifft, gwnaf hyny am y credaf fod y cyfryw dôn yn anaddas i gynulleidfaoedd bychain fel yr eiddom ni. Y mae llawer o dônau o'r natur hyn yn mhob un (o leiaf bron yn mhob un) o ragleni y blynyddoedd a fu. Gosodir hwynt i fewn yn y rhaglen, arferir hwynt gan ychydig o'n cerddorion am ychydig Suliau cyn y gymanfa, cenir hwynt ddydd y gymanfa (efallai gydag arddeliad) ac yna ni chlywir ragor am danynt. Gwaith dyddorol iawn fyddai chwilio allan pa nifer o'r tônau yn rhagleni, dyweder y chwe blynedd diweddaf sydd yn perthyn i'r dosparth hwn. Tônau da oeddent, yn ddiau ; ond tônau hollol anaddas i'w canu yn ein haddoliadau ar y Sul, yn benaf ar gyfrif y ffaith nad yw ein cynulleidfaoedd yn Ngheredigion yn lluosog. Da fyddai pe cadwasai'r Pwyllgor yr ymarferol mewn golwg yn fwy yn y mater o ddewisiad tonau, hyd y mae hyny yn bosibl.

Mewn perthynas i'r Emynau eto, er nad wyf fardd, medraf werthfawrogi emyn da. Ond mor aml yr anharddir emyn gan syniadaeth ganol-oesol. Y mae lliaws mawr o emynau, ydynt yn ddymunol i'r glust efallai, mor bell ag y mae'r geiriau yn myned, eto yn cynwys syniadau yn erbyn y rhai y mae'r oll sydd oreu yn fy natur yn gwrthryfela. Y mae yn hen bryd dwyn syniadaeth ein hemynau i fwy o gydgord a syniadaeth oreu yr oes y perthynwn iddi, ac nid ymfoddloni ar emynau a roddant fynegiad i syniadau mwy addas i genedlaethau y gorphenol. Dylem, fel adran fechan o'r Eglwys Gristionogol nad ydym gylymedig wrth un gyfundrefn neillduol o feddwl, fod yn ofalus iawn mewn perthynas i hyn. Y mae Pwyllgorau ein cymanfaoedd yn ofalus yn hyn o beth ; ond y mae'r mwyaf gofalus yn colli weithiau. Dyma linell allan o Raglen ein Cymanfa ddiweddaf fel engraifft : "Heuir yr had i dragwyddol wae." Beiddiaf ddweyd nad oes neb o honom—nad oes neb o gerddorion ein heglwysi—yn credu'r syniad erchyll hwn. Y mae yn syniad ag y mae teimlad goreu y byd Cristionogol heddyw yn ymswyno rhagddo. Ac eto fe'i cenid yn ein Cymanfa ddiweddaf fel pe ei fod yn un o argyhoeddiadau dyfnaf ein cerddorion.

Hynyna am ragleni y gorffenol. Beth am Raglen eleni ? Dywedaf ar unwaith fy mod, ar ol taflu golwg frysiog drosti, wedi'm boddhau yn fawr gan ei chynwys. Dyna yn fyr fy marn i am dani. Barned ereill hi fel y dewisant. Dyna'r fantolen ar y terfyn, gyda'r newydd boddhaol fod y fath swm anrhydeddus yn mhoced y trysorydd. Ai ni allai'r pwyllgor roi swm fechan o'r gweddill hwn at y drysorfa ddarperir ar gyfer dwyn allan y Llyfr Tonau ac Emynau newydd ? Nid yw hwn ond gofyniad—yn cynwys awgrym.

Ffaith foddhaol iawn arall ydyw fod y Gymanfa i gael ei chynal eleni yn Aberduar—ar wahoddiad cynes y gweinidog a'r gynulleidfa, fel y deallaf.

Beth am yr Emynau ? Saif Rhaglen eleni yn uchel yn y cysylltiad hwn. Y mae'r oll o honynt oddigerth pump, yn y "Perlau." O'r rhai newydd, neillduol a swynol yw'r emyn uwch enw ein cyfaill, y Parch. Ceredig Jones. O ran syniadaeth a theimlad gwir grefyddol, y mae hwn yn sefyll ar dir uchel iawn ; a diau genyf ei bod yn un o oreuon cynyrch ei awen felodaidd.

Da iawn yw'r tônau hefyd; a thebyg y delent yn dônau defnyddiol pe gwneid ymgais o ddifrif i'w dysgu erbyn dydd y Gymanfa. Tôn "a myn'd ynddi" yw'r "Portuguese Hymn." Clywais hi yn cael ei chanu y tro cyntaf, a'r unig dro imi i'w chlywed, mewn cyfarfod pregethu yn Merthyr. Trueni nad oes genym emyn Cymraeg arni. Y mae'r emyn Saesneg yn dda, ond Cymraeg yw iaith y Cardi, eto o leiaf. Beth pe cynygiai rhywun wobr am y cyfieithad goreu o honi?

Y mae y Rhaglen drwyddi o safon uchel iawn. Ond wedi'r cyfan, beth gwell ydym o honi? Yr un dynged fydd ei rhan, fel y mae lle i ofni, a thynged y rhan fwyaf o Ragleni y gorphenol: ni feistrolir hi ond yn anmherffaith, ac yna, ar ol i'r Gymanfa fyned heibio, syrth yr oll o'i chynwys—neu, y rhan fwyaf o'i chynwys—i ebargofiant. Ai nid dyna'r gwir mewn perthynas i Ragleni y blynyddau diweddaf? Gofyned ein cerddorion y gofyniad hwn iddynt eu hunain, a rhodded pob un ateb gonest iddo. Nid yw ein caniadaeth gysegredig yn agos yr hyn ddylai fod. Ysgrifenaf yn y fel hyn, nid mewn yspryd collfeirniadol, ond am yr hoffwn weled tipyn bach yn rhagor o ymdrech i godi safon ein caniadaeth. Terfynaf y llith hwn yn y modd a ganlyn: (1) Na cholled ein harweinyddion amser i alw yn nghyd y cerddorion; (2) na fydded y cerddorion yn hwyrdrwm i wrando ar yr alwad; (3) ar ol y deuir yn weddol gyfarwydd a'r tonau, arferer hwynt yn weddol aml yn yr addoliad ar y Sul. Beth fydd y canlyniad o hyn? Un o'r cymanfaoedd mwyaf llewyrchus ydym wedi gael eto, a gwelliant amlwg yn ein caniadaeth gysegredig. Mr. Golygydd, gan nad faint o werth sydd yn y sylwadau blaenorol, gobeithiaf yr atebant un dyben o leiaf—gobeithiaf y rhoddant i'n cerddorion destun i siarad arno. Os y gwnant hyn, ni fydd y llith hwn yn hollol ddi-amcan. Ond, yn mhellach, gan nad wyf fi na bardd na cherddor, a chan nad wyf am ddwyn digllonedd ein beirdd a'n cerddorion ar fy mhen, mawr obeithiaf y cedwch fy enw yn un o ystafelloedd dirgelaf eich meddwl—a than glo. Yma arwyddaf fy hun yn

EWYLLYSIWR DA.

FFORDD CYNYDD YW FFORDD DUW.

Mae Duw o hyd yn gweithio
Drwy'r greadigaeth faith,—
Mae'n ddyfal yn perffeithio
Pob rhan o'i ryfedd waith;
Dadblygu fyth mae'r cread—
Rhyw rosyn prydferth yw
A dyf dan heulwen cariad—
Ffordd cynydd yw ffordd Duw.

Nid cwymp i lygredigaeth
Ond codiad yn mhob oes,
Yw hanes y ddynoliaeth,
Mewn cyflwr, dysg a moes;
Nid yn y pell gorphenol
Y mae ein Heden wiw,
Ond yn y gwell dyfodol—
Ffordd cynydd yw ffordd Duw.

Mae dyn o hyd yn reddfol
A'i drem ar uchel nôd;
O dan orfodiaeth ddwyfol
Arosol nis gall fod;
Ac esgyn wna byth bythoedd
Mewn urddas o bob rhyw;
Ymgodi yw ei nefoedd—
Ffordd cynydd yw ffordd Duw.

E. CEREDIG JONES.

MARWNAD I'R DIWEDDAR BARCH. THOMAS THOMAS, Y.H., GREEN PARK, LLANDYSSUL.

(*Buddugol yn Nghapelygroes, Nadolig 1911.*)

I.

Dawel Bant-y-defaid ! Hun-fan tadau'n tud !
Gwylia engyl cariad uwch y fangre fud,
Lle i huno gwelsom roi anwyliaid lu,
A lle'n aml y clywsom uwch y briddell ddu,—
Gynt *hen wron anwyl* gydag urddas sant
Yn cysuro'r dyrfa megis tad ei blant.
Tywysogaidd ydoedd,—etto'n addfwyn iawn
Yng ngwasanaeth Seion yn rhoi ddydd a'i ddawn ;
Tal-syth oedd a chadarn, er fod coron wèn
Rhagfyr ym Mehefin einioes ar ei ben ;
Uniawn yn ei ystum, uniawn yn ei foes,—
Ei uniondeb roddai urddas ar ei oes.
Arlun o gadernid cywir blentyn Duw,—
Gemau gras serenent yn ei lygaid byw.
Fel cauad-frig dderwen feddai ruddin dur,
Cysgod oedd i'r mân-wydd yn nrycinoedd cur.
Heddyw, mae y gwron ? Pa'm na ddaw i'w hynt ?
Heddyw pa'm nad edwyn mo'no'i lwybrau gynt ?
Machlud wnaeth ei huan,—darfod wnaeth ei ddydd,
Ac o'i ol i ninnau, nos o dristwch sydd ;
Ond fel cana'r *ëos* yn y gwyll ei salm,—
Cerddi telyn *Adgof* ar ein briw rydd falm.

II.

Yn mhrydferthwch Natur lle yn nwyfus nant
Ymdröella'r Glettwr ar ei gwib i'r pant,
Lle o foel y Fadfa fry esgyna côr
Ehedyddion gwawrddydd i folianu'r Ior,—
Wele'r fan a roddodd i athrylith gryd,
Pan â Thomas Thomas yr anrhegodd fyd !
Nid ar ros-dir tlodi planodd Nef ei ddawn,
Ond yng ngardd doreithiog cartref clyd a llawn.
Lle fel pêr blanhigyn tyfai *crefydd rydd*,
O dan gnwd o aeron ac aur-falau ffydd.
Rhodio ffyrdd *gwybodaeth*, cerdded llwybrau *cân*,—
Dyna fu hyfrydwch boreu'i fywyd glân.
Anian roddodd iddo berl o decaf liw—
Gem nodweddai fywyd—naturioldeb gwiw.
Yng nghymdeithas adar bach y goedlan fad,
Yn nhawelwch bywyd iach a phur y wlad,—
Dysgu taro tannau telyn *Awen* gu,
Meithrin nerth i *hedeg* pan ddoi'i nawn y bu.

Ef o oraf chwarel dynol-ryw oedd faen,
A thàn gŷn diwylliant daeth yn deg ei raen.
Ymaddfedu'n athraw mwyn a goleu wnaeth,
Un i *ben* a *chalon* huliai gywir faeth.
Addysg wèn y ddaear, addysg wenach Nef,—
Dyna'r hâd bendithiol a wasgarodd ef.

III.

Fendigedig Ysgol Pentref bach Pontsiân !
Sôn am dani chwytha farwor serch yn dân.
Gydag Ystrad Meurig—Castell-hywel hen,
Mae ei henw wedi dori'n llyfr ein llên,
Ac yn gymbleth wrtho mewn anfarwol fri
Enw Thomas Thomas—ei thywysog hi.
Gyda Dafydd Dafis—Edward Risiard fawr,
Yntau mwyach eistedd ar orseddfainc cawr.
Cymwynaswr cenedl yn ei hing a'i nos
Ydoedd ef,—a chodi wnaeth o ddyfnder ffos
Dellni a thywyllwch fyrdd i'r làn i fod
Yn llumanwyr rhinwedd ac yn arwyr clod.

Fel am amryw *lysiau'r* ardd y garddwr ŵyr
Am amrywiol *ddoniau'r* ysgol yntau'n llwyr
Wyddai,—ac fe wyddai hefyd am y modd
Goreu'i wneud i'r dalent ildio'i chyflawn rodd ;
Meddwl ieuanc driniai fel gwinwydden wàn
Yn yr iawn gyfeiriad iddo'i fyn'd i'r làn ;
Gwyddai'r modd i'w faethu nes i flodau glân
O addewid wynnu twf ei frigau mân ;
Tocio wnai heb dostur wyllt ganghenau bai
Nes yn ffrwyth ei lafur—grawn-win dysg a gai.
Hir yng ngwlad Ceredig bu yn chwalu llèn
Dywyll anwybodaeth efo'i lusern wèn ;
Ac i'w goffadwriaeth, Gwalia'n uchel wel
Heddyw blant ei ofal—addfed ffrwyth ei sêl ;
Oesi wna'r dysgawdwr eto ynddynt hwy,
Er yn tawel huno yn y beddrod mwy.

IV.

Cwyna Pant-y-defaid—Capelgroes a gŵvn,
Cwyno wnant am golli'r hen weinidog mwyn
Fu cyhyd i'w tywys ar hyd lwybrau'r Nef,—
Câr mewn haf a gauaf gawsant ynddo ef.
Blaenor a chynghorwr cywir fu i'w gail,—
Buchedd dda i'w gynghor yn ddi-sigl sail.
Gwin gwreiddioldeb ynddo'n ffynon darddai heb
Unrhyw rith o angen efelychu neb ;

Nid fel cornant mynydd—weithian *erys* bron,
Yna dros ryw glogwyn *ruthra'n* drystiog dòn
Ydoedd ei ymadrodd,—ond fel afon gref
Gludai ei wrandawyr i draethellau'r Nef.
Nid â sofl ac eisin cyffredinedd gwael
Porthai ef ei ddefaid, ond ag yd yn hael.

Un o gestyll cedyrn *crefydd rydd* a fu
Pan y rhuai megnyl gormes ar bob tu ;
Gastell ar sylfeini craig yr Undod glaer !
Rhyddid barn a llafar gawsant ynddo gaer
Nad oedd modd ei chwalu er aneirif gais
Saethau twyll-resymeg ac ergydion trais.

Craff ei ymresymiad,—gyru ei apel
Wnai i lys yr enaid, ac i gonglau cêl
Calon y pechadur, ac ar wŷs ei ddawn
"Careg ateb" *rheswm* ro'i gydsyniad llawn.
Annog byd i wisgo *symledd* crefydd Crist
Fel y darian ettyl saethau pechod trist,—
Dyna genadwri'i air a'i weithred ef
Ac er marw'r *cenad*, clywir etto'i *lef*.

V.

Wr o bur ddelfrydau ! Tangnef oedd ei lyw,
A gorphwysfa'i enaid ydoedd *cariad* Duw :
Iddo'r Nef a roddodd goron einioes faith,—
Rhodio 'mraich anrhydedd bu hyd ben ei daith.
Ffydd a chariad talaeth blethent am y gwr
Fel y glŷn yr eiddew am yr uchel dŵr.
Addurn teg ei deulu ! Ysbrydoliaeth gref
Fydd ei fri a'i urddas fyth i'w geraint ef.
Gadarn dŵr Undodiaeth ! Enwau—er ei fwyn—
Fydd "Green Park" a "Chribor" fedd anfarwol swyn.

Bellach yn mwyniannau awenyddion Ne',
Hwnt i gur a blinder—uno wna efe ;
A thra'r loew Glettwr lifa drwy y fro,
Enw THOMAS THOMAS ddeil yn wyrdd mewn co'.

DELYN HIRAETH,

Sef CLEDLYN, CWRTNEWYDD.

PRIODAS.

IONAWR 28, yn nghapel Undodaidd Thomastown, Merthyr, gan y Parch. J. C. Davies, Cefncoed, Mr. David Watkin Simons a Miss Gwendolen Miriam Vaughan, y ddau o Ferthyr. Dymunir iddynt ddyddiau lawer o lwyddiant ac hapusrwydd.

MARWOFION.

IONAWR 20, yn 36 mlwydd oed, Benjamin Evans, mab Mrs. Mary Evans, Ormond House, Tregaron, a brawd i'r Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield. Yr oedd yr ymadawedig wedi bod yn nychu am rai blynyddau, ac wedi treulio y pum mlynedd olaf o'i fywyd gartref gyda'i fam o herwydd gwaeledd ei iechyd. Yr oedd ef, fel ei deulu a'i berthynasau, yn ddyn ieuanc o alluoedd mawrion ac o gymwysderau lawer, a diau, pe cawsai fywyd ac iechyd y buasai wedi esgyn i ryw safle uchel. Bu ar wasanaeth yn swyddfa Cwmni Rheilffordd y Manchester & Milford, ac wedi hyny yn swyddfa Cwmni Rheilffordd y Great Western. Cydnabyddwyd ei gymwysder a'i ffyddlondeb gan y Cwmniau hyn drwy ei ddyrchafu i safleoedd uwch yn eu gwasanaeth. Gosodwyd profedigaeth o'i flaen i ymadael a'r Cwmni olaf drwy i Gwmni mawr o gludwyr yn Llundain o'r enw Cwmni Paterson gynyg iddo y swydd o fod yn un o'i phrif ysgrif-weision, yr hon a dderbyniodd. Ni fu yn hir yn y swydd hon cyn i'w iechyd ddechreu gwaelu, a gorfu iddo roi ei waith i fynu. Yr oedd yn ffafryn lle bynag y byddai, ar gyfrif ei ffraethineb a'i sirioldeb. Gadawodd fam, tri brawd, pump chwaer, a pherthynasau eraill i alaru ar ei ol. Cladddwyd yr Iau canlynol yn mynwent eglwys Tregaron. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin, ac yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. D. M. Davies, Ficer Nantcwnlle, a'r Parch. Mr. Rees, Ficer Gowerton. Boed i'r fam a'r brodyr a'r chwiorydd dderbyn nodded y Tad nefol i ddal i fynu o dan eu profedigaeth chwerw.

IONAWR 24, yn 66 mlwydd oed, Esther Thomas, priod Mr. Joseph Thomas, Wernddu, Llanfihangel-Ystrad. Cymerwyd yr ymadawedig yn glaf yn ddisymwth, ac ni fu ei chystudd ond am ychydig ddyddiau. Yn Ty'ncwm, ger Cwrtnewydd, y dechreuodd hi a'i phriod fyw ar ol priodi, ac yno y treuliasant ran fawr o'u bywyd. Symudasant oddi yno i Wernddu rai blynyddau yn ol. Er nad oedd yr ymadawedig wedi bod yn y lle hwn ond am ychydig flynyddoedd, eto yr oedd wedi enill iddi ei hun barch mawr, fel yr oedd yr angladd lluosog a gafodd yn brawf o hyny. Yr oedd yn perthyn iddi lawer o rinweddau ag sydd yn enill parch :—nodweddid hi gan ddiniweidrwydd, serchogrwydd, ac ewyllys dda tuag at bawb. Yn ei theulu bu yn wraig ffyddlon, ac yn fam dda. Yr hyn a allodd fel gwraig a mam hi a'i gwnaeth.

Gadawodd briod, un mab, dwy ferch, un chwaer, a pherthynasau eraill mewn galar mawr ar ei ol. Nerth a gaffont i ymostwng dan y brofedigaeth lem, a dal gafael ar eu ffydd. Claddwyd y Llun canlynol yn mynwent eglwys Capelybryn, Cwrtnewydd, a gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. J. Davies, T.A.Thomas,a B.Carolan Davies (A), Tynygwndwn.

IONAWR 25, wedi cystudd maith, yn 59 oed, David Evans, Llysfaen House, Llanybyther, gan adael ei wraig yn weddw a'i ddau blentyn yn amddifaid. Claddwyd yn mynwent eglwys Llanwenog, a gwasanaethwyd ar yr achlysur galarus yn y tŷ, gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca ; wrth y drws gan y Parchn. D. Spenser Jones, B.A., Aberduar, a D. James, Rhydybont, ac yn yr eglwys a'r fynwent gan y Ficer. Yr oedd yr angladd y mwyaf a welwyd yn y gymydogaeth er ys amser maith. Yr oedd Mr. Evans wedi bod yn fasnachwr ar raddfa eang yn Llanybyther, am flynyddau lawer, a thrwy ei onestrwydd a'i ddidwylledd yr oedd wedi enill iddo ei hun ymddiried y cyhoedd yn mhell ac agos. Byddai pobl o bob enwad crefyddol a gwleidyddol yn myned i Shop Llysfaen, yn ffyddiog y caent yno werth eu harian, "Goreu cyfrwystra gonestrwydd." Yr oedd yn aelod selog o'r eglwys Gristionogol yn Alltyplaca, a cha'r ddeadell fechan golled fawr yn ei ymadawiad. Heblaw ei wraig a'i blant gadawodd Mr. Evans frawd a dwy chwaer mewn hiraeth dwys ar ei ol. Boed yr adgof o'i fywyd rhinweddol yn ysprydoliaeth iddynt i rodio yn yr egwyddor a'u cynal yn eu trallod blin. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

CHWEFRROR 7, wedi cystudd byr iawn, yn 44 oed, Eleanor, anwyl briod Mr. Simon Davies, Glyncoch, Llandyssul, gan adael ei phriod, a phedwar o blant ieuainc mewn galar dwys ar ol gwraig ffyddlon a mam dyner a darbodus. Claddwyd yn mynwent Capelybryn, a gwasanaethwyd ar yr achlysur galarus gan y gweinidog gyda chynorthwy caredig y Parchn. E. Glyn Edwards (B.), ac L. Williams, Rhydygwin. Yr oedd yr ymadawedig o gymeriad difrycheulyd. Treuliodd ei bywyd byr mewn heddwch a dynion a Duw ; a chreodd ei symudiad cynar a dirybudd deimlad o brudd-der mawr drwy gylch ei hadnabyddiaeth. "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr."

CHWEFROR 15, Mrs. Mary Evans, Gwastod, Llancrwys, yn 92 mlwydd oed, ac er fod Mary Evans wedi cyrhaedd yr oedran teg uchod yr oedd mewn meddiant llwyr ar ei holl alluoedd meddyliol hyd derfyn eithaf ei thaith, ac yr oedd hyd o fewn ychydig flynyddau'n hynod gryf mewn ystyr gorfforol, a byddai'n fwy felly pe na byddai am ddamwain gyfarfyddodd. Treuliwyd ganddi fywyd llafurus ac ymdrechwyd ganddi ymdrech deg yn y cylch cymharol gyfyngedig oedd hi'n troi ynddo, ac yr ydym yn teimlo'n hollol sicr y gellir dywedyd fod iddi air da gan ei holl gydnabod ar gyfrif y rhinweddau amlwg, ond hollol ddirodres, a berthynent i'w bywyd yn mhob man ac yn mhob peth, a dyna'r dystiolaeth glywid yn ei hangladd. Yr oedd yn aelod o eglwys Caeronen, a hi, erbyn hyn oedd yr hynaf o'r aelodau, er fod methiant henaint a phellder ffordd wedi ei hanalluogi i fynychu y gwasanaeth yn y lle bron yn llwyr ; ond yr oedd yn hoff iawn ganddi hyd y diwedd son am yr hen gapel bach diaddurn y bu hi am lawer o flynyddau'n cael y pleser a'r fraint o addoli ynddo, ac am y gladdfa gysegredig yn ei ymyl lle'r oedd cyrff anwyliaid lu iddi'n malurio o dan y dywarchen las, ac yno hefyd mae ei chorff hithau erbyn heddyw wedi ei osod i ychwanegu eto at gysegredigrwydd y fan i feddyliau llawer. Gadawodd mewn galar ar ei hol bedwar o blant, un chwaer, heb son am berthynasau eraill lawer. Ar ddydd ei hangladd gwasanaethwyd yn y tŷ a'r capel gan y Parch. R. C. Jones, ac yn y fynwent gan y Parch. Lewis Williams.

CHWEFROR 18, yn 83 oed, Evan Evans, Dolwenfach, Llanwenog. Claddwyd yn mynwent Aberduar ; a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, Alltyplacca, gyda chynorthwy caredig y Parch. Lee Hamer, B.A., Curad, a D. Spenser Jones, B.A., Aberduar. Gadawodd ei briod (ar ol 62 mlynedd o gymdeithas gariadus), tri o blant, ac amryw wyrion mewn galar ar ei ol. Nerth a gaffont i alaru'n gymedrol, i ddiolch am gael ei gadw cyd, ac i barotoi i fyned ar ei ol.

CHWEFROR 21, yn 88 mlwydd oed, Ann Evans, Blaencefel, ger Pantdefaid. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol yn mynwent Pantdefaid a'r gweinidog yn gwasanaethu. Adnabyddid yr ymadawedig gan ei chyfeillion fel "Nanny, Blaenhowell," ac yr oedd iddi barch mawr yn y cylch y bu yn byw ynddo, ar gyfrif ei hyspryd caredig, a'i pharodrwydd i helpu yn ol y gallu gafodd. Cododd i fyny deulu lluosog, a gadawodd blant, wyrion a gorwyrion mewn hiraeth ar ei hol.

ER COF ANWYL

Am Miss Jane Williams, Glynhir, Llanbedr, yr hon a hunodd Ionawr 16, 1912, yn 22ain mlwydd oed :—

Sangu'r wlad 'roedd blwyddyn newydd
Gobaith gloew ar ei gwedd,
Yn Glynhir 'roedd teulu dedwydd,
Dim yn tori ar ei hedd,
Ar fyr rybudd, profedigaeth
Ddaeth i gwrdd y teulu mad,
Gan i elyn y ddynoliaeth
Ddod i'r ty yn llawn o frad.

Sathru wnaeth yn ddidosturi
Martha Jane o dan ei droed,
O ! mor brudd oedd gwel'd ei thori
Pan ond dwy ar hugain oed.
Pwy feddyliodd dechreu'r flwyddyn
Pan yn edrych ar ei gwedd,
Y buasai hi mor sydyn
'N cael ei dodi yn y bedd.

A phob cyfaill rhaid oedd cefnu
Heb ffarwel, nag ysgwyd llaw,
Ni chawd rhybudd er gwneud hyny
Gan angeuol frenin braw.

Gwagder mawr sydd yn y teulu
Ar ol colli Martha lòn,
Pob gobeithion wedi eu chwalu
Gofid prudd yn rhwygo'r fron.

Marw ydyw'r llaw chwareuai
Yr offeryn ar y Sul,
Mwy ei chwmni ni chawn ninau
I gyd deithio'r llwybr cul.
Ffyddlawn iawn dros achos Iesu
Fu tra yma ar y llawr,
Byth ni flinai ar wneud hyny
Carai ef a chariad mawr.

Canodd lawer iawn am dano
Canu oedd ei hoffus waith,
Canu wnaeth nes iddi huno
Ar derfynau eitha'r daith ;
Huno, ie, huno'n dawel
Wnaeth yn mreichiau'r Iesu cu,
Huno'n ddigon hardd i'r angel
Ddotio wrth ei gweled hi.

D'wed y delyn fach doredig
Ar ei bedd wrth odreu'r bryn,
Collwyd talent gysegredig
Yn rhy gynar yn y glyn ;
"Nid rhy gynar," medd yr Iesu,
Oedd rhoi coron ar ei phen,
"Nid rhy gynar" oedd dyrchafu
Anwyl un i'r Nefoedd wen.

Huna'n dawel Martha anwyl
Na ddoed ditn i dori'th hedd,
Credwn dy fod eto'n ymyl
Yn ein ymyl fel dy fedd ;
Mor hiraethus am ei cholli
Yw ei chwaer a'i brawd dinam,
Palla iaith i ni fynegu
Hiraeth dwfn ei hanwyl fam.

Deulu anwyl, peidiwch wylo
Trowch wynebau tua'r nen,
Martha Jane sy'n canu yno
Gyda'i thad tu hwnt i'r llen.
Goleu geir ar gudd drefniadau
Duw tuag atom cyn bo hir
Pan ddaw'r ffordd yn rhydd i ninau
I'w chydgwrdd yn Salem dir.

S. GLANTEGWEN DAVIES.

Llanarth.

MANION AC HANESION.

ABERYSTWYTH.—Bydd yn ddyddorol i lawer o ddarllenwyr "YR YMOFYNYDD" i ddeall fod gyda ni yn awr yn Aberystwyth dair wyres fechan i Gwilym Marles, o fendigedig goffadwriaeth, sef Audrey a Delia James, plant Elizabeth a'i gwr Dr. James; a Ursula Barnard, merch Muriel a'i phriod Mr. Barnard, o Walsall. Mae hanes y ddwy gyntaf yn ddyddorol iawn: cawsant eu geni a'u magu hyd yn ddiweddar yn yr India—yn Simla, yn agos i'r eira a'r iâ tragwyddol, lle y dal eu tad swydd bwysig o dan y llywodraeth. Mae eu rhieni o ddaliadau crefyddol blaenfynedol, a thra yno arferent addoli mewn caban bychan wrth eu hunain yn y coed, yn hytrach na myned i unrhyw eglwys iawnffyddol. Maent yn awr ar ymweliad gweddol hir a'r wlad hon, ac yn yr ysgol gyda'u modryb yma. Daethant yma gyda'u mam, yr hon sydd yn awr ar ymweliad a'r Almaen ond sydd i ddychwelyd cyn hir, tra y mae eu tad ar daith o amgylch y byd yn ngwasanaeth llywodraeth yr India. Maent yn hoff iawn o fynychu'r addoldy bychan yn New Street, ac ymhyfrydant i gael addoli gyda chyd-grefyddwyr. Gymaint y gwerthfawrogant y fraint fel y maent wedi rhoddi darlun prydferth gan Bartolozzi, oedd yn hoff ganddynt, i addurno muriau y capel bach, ac i'w wneyd, gyda'r rhai sydd yno yn barod, yn lle mwy cymhwys i addoli Duw. Am hyn mawr ddiolch iddynt.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Mae y casgliad blynyddol yn awr yn ddyledus. Yn mis Mawrth y mae ein hysgolion luosocaf yn Sir Aberteifi, am y rheswm eu bod yn parotoi y pryd hwnw ar gyfer y cymanfaoedd ysgolion. Felly hyderwn y gwneir y casgliad yn yr oll o'r ysgolion cyn diwedd Mawrth er mwyn cael casgliadau da, ac hefyd er mwyn eu cael mewn pryd.—L. W., *Ysg.*

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.—Nos Lun, Ionawr 1af, cynhaliwyd Cyngherdd llwyddianus yn y lle uchod o dan nawdd yr Ysgol Sul, a'r achlysur oedd anrhegu y plant a llyfrau am bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Cyflwynwyd y llyfrau gan y gweinidog, y Parch. J. Glynne Davies, yr hwn a roddodd araeth bwrpasol iawn ar werth llyfrau, a gair o anogaeth i'r plant wrth ddyfod yn mlaen i dderbyn eu gwobr. Cafwyd araeth hefyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A. Llywyddwyd y cyfarfod gan yr Arolygydd, Mr. Taliesin Griffiths.

DEWI SANT.

Yn mysg mynyddau Cymru lân,
  Ganrifoedd maith yn ol,
Fe drigai sant; a llosgai tân
  Gwladgarwch yn ei gol;
Ei wyrthiau gwych a'i ddoniau drud
  Enillent wir fawrhad;
Ond canmil gwell na rhai'n i gyd
  Ei gariad at ei wlad.

Cydgan—

"Am hyn ymddygwch megys gwŷr"
  Medd Cymru wrth ei phlant,
Gan drigo mewn brawdgarwch pur,
  Wrth gofio Dewi Sant.

Mae ymrysonau'r dyddiau gynt,
  Fu'n dal ein gwlad i lawr,
Fel niwl o flaen yr awel wynt
  Yn llwyr ddiflanu 'nawr;
Mae dysg a rhyddid law yn llaw
  Yn dweyd o ddydd i ddydd,
Fod dyddiau teg yn gwawrio draw
  Ar ffiniau Cymru Fydd.

Mae Rhufain fawr, er maint ei nerth,
  A bri ei milwyr gynt,
Yn gandryll dan olwynion certh
  Tynghedfen ar ei hynt;

Ond Cymru fâd blodeuog yw
Yn nghanol hoen a hedd,
A'i iaith a'i defion eto'n fyw
Heb wywder ar ei gwedd.

DEWI MÔN.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG—Cyfarfu pwyllgor o'r uchod yn Nghapelybryn, dydd Llun, Chwefror 12, pryd yr oedd yn bresenol holl weinidogion Ceredigion a chynrychiolwyr bron o'r holl eglwysi. Etholwyd y Parch. John Davies i'r gadair. Y pwnc fu dan sylw fwyaf ydoedd yr un ohiriwyd o gyfarfod Capelygroes, sef yr adeg fwyaf cyfleus o'r flwyddyn i gynhal cyfarfodydd y Gymdeithas. Ar ol ymdriniaeth lwyr o'r cwestiwn, pasiwyd ei fod yn cael ei osod ger bron ystyriaeth yr eglwysi, ac i gael adroddiad eto yn ngwrdd Caeronen. Y ddau gynygiad fu ger bron, ar ba rai gofynir am farn yr eglwysi oeddynt fel y canlyn: (1) Fod dau gyfarfod i gael eu cynhal yn y flwyddyn, un yn mis Ebrill a'r llall yn mis Hydref, ar linellau y cyfarfodydd presenol. (2) Fod tri chyfarfod i gael eu cynal—y cyfarfod blynyddol yn Mehefin fel yn awr, a dau gyfarfod arall, un adeg y Pasc a'r llall yn mis Hydref, y ddau olaf hyn i fod o nodwedd wahanol, sef cynhadledd yn y prydnawn am ddau, a chwrdd pregethu am chwech yn yr hwyr. Awgrymir y byddai cyfleusdra yn y gynhadledd y prydnawn i ymdrin ag unrhyw fater perthynol i'n heglwysi. Gobeithio y gwna holl eglwysi y Gymdeithas ystyried y mater uchod ac i ddod i ryw benderfyniad erbyn y cyfarfodydd chwarterol nesaf.—T.A.T.

LLYFRAU NEWYDDION.—Ni fu un oes yn fwy am ei llyfrau na'r oes hon. Yn mhob cangen o wybodaeth troir allan gyfrolau wrth y cannoedd bob blwyddyn, ac y mae yn sicr yn arwydd fod yna fwy o ddarllen a myfyrio nag erioed. Llyfr pwysig iawn ydyw yr olaf gyhoeddwyd gan Proff. Eucken, o Jena, ac a gyfieithwyd gan y Parch. W. Tudor Jones o'r Germanaeg i'r Saesneg. Bwriadwn ei adolygu yn ein nesaf. "*A Short Introduction to the Bible*," gan G. T. Sadler sydd lyfr cryno ac yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Beibl. Ei bris ydyw haner coron. Llyfrau defnyddiol ydynt y rhai gyhoeddir gan yr *Unitarian Sunday School Association*, a dylasent fod yn nwylaw athrawon ein Hysgolion Sul—"*The Practical Teaching of Jesus of Nazareth*," gan A. W. Fox, M.A.; 1/6. Y mae wedi seilio y gwersi hyn ar yr hanes fel ei croniclir gan Luc. Y mae hwn eto wedi ei ysgrifenu yn arbenig ar gyfer yr athrawon. "*Paul*" ydyw testyn llyfr arall o'r un dosparth a'r uchod, gan Dr. Drummond. Os ydyw ein hathrawon neu ein hysgolion yn chwilio am lenyddiaeth newydd, anogwn hwynt i brynu yr uchod yn nghyd ag amryw lyfrau da eraill gyhoeddir gan Gymdeithas yr Ysgol Sul.

COLEG CAERFYRDDIN.—Y mae cwestiwn o gyflenwad y weinidogaeth yn Nghymru wedi bod o dan ystyriaeth ddifrifolaf y ddwy Gymdeithas Undodaidd yn Nghymru yn ddiweddar. Nid ydym heb ofni na ddaw yna adeg, a hyny heb fod yn faith, pan yr ychwanegir at ein pwlpudau gweigion yn Nghymru, ac heb neb genym yn barod i lanw yr adwy. Yr ydym yn magu mwy o lawer o weinidogion yn Nghymru nag sydd arnom angen am danynt, ond hudir hwynt drosodd yn union. gan swynion melusach y pwlpud yn Lloegr. Y mae ar hyn o bryd rhyw ugain o weinidogion ydynt wedi eu magu yn mhlith eglwysi Undodaidd Cymreig, yn weinidogion llwyddianus yn Lloegr a'r Iwerddon, ac nid yn debygol y gwna un o honynt ddychwelyd i wlad eu genedigaeth. Yn yr ystyr hyn gellir dyweyd am danynt eu bod wedi anghofio'r graig o'r hon y'u naddwyd, a'r ffos o'r hon y'u cloddiwyd. Diau y buasai yn lles i Undodiaeth Cymru pe buasai genym rhyw *Tariff* er attal y gwaghad hwn o'n rhengau sydd wedi myned yn mlaen ar hyd y blynyddoedd. Ar yr un pryd y mae yn fater llawenhau ynddo fod yr ychydig eglwysi Undodaidd Cymreig tlawd

hyn, wedi bod yn ddigon cyfoethog i godi nifer mor deilwng o weinidogion i'n heglwysi Seisnig. Y mae yn ein bryd ni eto ddymuniad am godi rhagor o weithwyr i'r winllan, ac o weled Coleg Caerfyrddin—hen fagwrfa nifer luosog o'n hen wroniaid—fel yn ei ogoniant cyntaf, yn ei gysylltiad a'n eglwysi Cymreig. Y mae'r ddwy Gymdeithas wedi dewis pwyllgor er edrych ar ol buddianau myfyrwyr Undodaidd Coleg Caerfyrddin. Wele y pwyllgor :—Mrs. Reed, Abertawe (Trysorydd), y Parch. Arthur Thomas, Llandyssul, (Ysgrifenydd), y Parchn. John Davies, Alltplacca ; Simon Jones, B.A., Abertawe ; Mr. Gomer Thomas, J.P., Merthyr ; Dr. D. J. Davies, B.A., Ph.D., Aberystwyth. Bydd gan y Pwyllgor hwn eto allu i ychwanegu tri eraill atynt.

Deallwn fod yna yn barod dri, neu bedwar o fechgyn ieuainc addawol yn parotoi gyferbyn a'r Coleg. Y mae un o honynt, sef Mr. Oswald Williams, yn barod yn Ngholeg y Brifysgol yn Aberystwyth, a bwriada raddio yno yn gyntaf. Diau y gwna y Pwyllgor hwn apel yn fuan er cynorthwyo y myfyrwyr hyn tra yn y Coleg. Yn y cyfamser bydd yr Ysgrifenydd yn barod i dderbyn awgrymiadau oddiwrth gyfeillion yr achos yn mhob man—awgrymiadau fyddant o fudd i'r Pwyllgor yn ei waith.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Llywydd—Y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield.
Pregethwr—Y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar.

Cynhelir CYFARFODYDD CHWARTEROL yr uchod yn NGHAERONEN, ar ddyddiau MERCHER a IAU, MAWRTH 20 a 21.

Estynir y croesaw gwresocaf gan weinidog ac eglwys Caeronen i weinidogion a chynrychiolwyr eglwysi ac eraill i'r cyfarfodydd hyn. Bydd Bwyd i bawb o'r dieithriaid, yn llên a lleyg, prydnawn Dydd Mercher, yn Ogmore House, Llanbedr.

Bydd trefniadau y cyfarfodydd fel y canlyn—

DYDD MERCHER, am 6 o'r gloch—Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
DYDD IAU, am 9 o'r gloch—Pwyllgor y Gymdeithas.
„ „ 10.30 „ —Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
„ „ 2 „ —Gwasanaeth a Phregeth gan y Parch. R. J. Jones, M.A.
„ „ 6 „ —Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Cesglir fel arfer yn yr holl gyfarfodydd.

T. ARTHUR THOMAS, Ysgrifenydd.

Trysorfa Addysgol Gweinidogion Undodaidd Cymreig

	£	s.	c.
Miss Jenkins, Trecefel, Tregaron	0	2	6
Mr. D. J. Jones, Broniestyn, Aberdare	0	10	0
Mrs. William James, Brynhyfryd, Llandyssul ...	1	1	0
Parch. Arthur Thomas, Llandyssul	0	10	0
Parch. E. Ceredig Jones, M.A., Tannerdy, Ciliau ...	1	1	0
Parch. T. Lloyd Jones, Liverpool	1	0	0

Anfoner pob tanysgrifiadau i'r Trysorydd—Mrs. Evans, Taliesin House, Lampeter ; neu i'r Ysgrifenydd—Parch. R. C. Jones, Ogmore House, Lampeter.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1857.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

STANDARD FLOUR

(Containing 80 per cent. of the whole wheat.)

T. E. JONES & Co. beg to announce that they are Millers of Standard Flour which contains 80 per cent. of the whole Wheat, including the Germ and Semolina. This Flour is a pure unadulterated Wheat Flour containing all the nutritive properties, and has passed the test of the "Daily Mail" Specialist. Also Manufacturers of Pure Welsh Oatmeal.

Prices on application—Wholesale and Retail.

T. E. JONES & Co., The Stores, Llandyssul, Ffrwdwen Mills, Ponttwelly, & Rhydowen Mills

TELEGRAMS—JONES CO., LLANDYSSUL.

FOOTWEAR of QUALITY.

We Stock a good Selection of Ladies', Gentlemen's, & Children's Boots & Shoes for all occasions.

We do not pin our faith to "One-Price" as though, in some unexplainable fashion, all the virtues were inseparably connected with some particular combination of figures.

We offer you a choice, at a range of prices which covers all requirements with the Utmost Value at the Price in every Pair.

Next time, try a pair of Ben. Evans' Boots and test the value "in the wear."

BEN. EVANS & Co., Ltd.,

SWANSEA.